# Safonau'r Gymraeg

## Adroddiad Monitro Blynyddol

1af o Ebrill 2018 – 31ain o Fawrth 2019




**Gwasanaeth Tân ac Achub**
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Cefndir i Safonau'r Gymraeg | 4 |
| Safonau a gymhwysir at Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru | 5 |
| Tudalen Gwefan Safonau'r Gymraeg | 6-7 |
| Monitro Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg | 8 |
| Gweithredu Safonau'r Gymraeg | 9 |
| Gwasanaethau Cyfieithu i'r Gymraeg | 9 |
| Polisïau Corfforaethol | 9 |
| Swyddi a Sgiliau Cymraeg | 10 |
| Darparu Hyfforddiant Cymraeg | 10 |
| Bod yn Weithredol wrth Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru | 11 |
| Nifer yr ymweliadau i dudalennau wefan Cymraeg | 12-13 |
| Dadansoddiad o'r rhyngweithiadau â thudalennau cyfryngau cymdeithasol | 14-15 |
| Nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg | 16 |
| Hyfforddiant a chyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg | 16 |
| Cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg | 16 |

# Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn falch o gyhoeddi ei Adroddiad Monitro Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2018-2019. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Gwasanaeth wedi parhau i fonitro ei gynnydd yn erbyn y Safonau, gan gydweithio â Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru ill dau. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog o safon i gymunedau De Cymru ac yn ymdrechu'n barhaus i wella ein darpariaeth Gymraeg.

# Cefndir i Safonau'r Gymraeg

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i bob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith, sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau'n annog hyrwyddo'r Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu ar gyfer hygyrchedd y Gymraeg i'r cyhoedd.

Mae Adran 44 o Fesur 2011 hi'n caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg gyflwyno hysbysiad Cydymffurfio, yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un neu ragor o safonau sy'n benodol gymwys iddo. Yn dilyn hyn cyflwynwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

Yn unol ag adran 44 o Fesur 2011, diben Safonau'r Gymraeg yw darparu:

- Eglurdeb o ran y Gymraeg ar gyfer sefydliadau
- Eglurdeb i siaradwyr Cymraeg o ran pa wasanaethau y gellir disgwyl eu derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg
- Cysondeb gwell o ran gwasanaethau Cymraeg ac ansawdd gwell i ddefnyddwyr

# Safonau a gymhwysir at Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Ar ôl cyflwyno cais yn herio Safonau 118 a 123, derbyniodd yr Awdurdod gadarnhad gan Gomisiynydd y Gymraeg ar yr 31ain o Fai 2018 bod Safon 118 wedi'i disodli gan **Safon 119** a bod Safon 123 wedi'i dileu.

## Safon 119 sy'n newydd

Rhaid i chi sicrhau:

(a) bod testun hafan eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg
(b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich mewnrwyd (neu, lle bo'n berthnasol, hafan mewnrwyd Gymraeg) yn gwbl weithredol, ac
(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

Yn dilyn penderfyniadau'r Comisiynydd Cyflwynwyd hysbysiad Cydymffurfio diweddaredig i'r Awdurdod. Mae cyfanswm o 150 o Safonau'r Gymraeg bellach yn eu lle o fewn y categorïau canlynol:

- **Deparu gwasanaethau** - 66 o safonau (1-81)
- **Llunio polisïau** - 9 safon (85-94)
- **Gweithredol** - 47 o safonau (95-141)
- **Cadw cofnodion*** - 8 o safonau (143-151)
- **Atodol*** - 20 o safonau ar draws 4 categori (152 - 171)

Cymhwysir y Safonau ar gyfer cadw cofnodion* a'r Safonau atodol* i helpu sefydliadau â'r broses o hunanreoliad eu cydym ffurfiaeth.






# Safonau'r Gymraeg

**Adref**

**Amserlen UKRO**

**Cofrestr Buddiannau'r Aelodau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru**

**Llyfrgell Cyhoeddiadau**

**Cynllun Gwella**

**Cysylltu â ni**

**Diogeludata**

**Eich Diogelwch a Lles**

- Diogelwch ar y Ffyrdd
- Eich Cymuned
- Mewn Busnes
- Yn y Cartref

Safonau'r Gymraeg ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i bob sefydliad Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau'n annog hyrwyddo'r Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiad mewnol ac yn mynnu bod darpariaeth ar gael i'r cyhoedd o ran hygyrchedd y Gymraeg.

Cyflwynwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae safonau'r Gymraeg yn darparu

- Eglurder i sefydliadau ar yr Iaith Gymraeg
- Eglurder i siaradwyr Cymraeg ar ba wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- Mwy o gysondeb mewn Gwasanaethau Cymraeg a gwella ansawdd i ddefnyddwyr

Mae'r rheoliadau'n nodi bod Mesur 2011 yn caniatáu i Gomisiynydd Cymru ddyroddi Hysbysiad Cydymffurfio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un neu fwy o safonau sy'n benodol gymwys iddo.

# Tudalen Gwefan Safonau'r Gymraeg

Mae gan y Gwasanaeth dudalen benodol ar gyfer safonau'r Gymraeg dan 'Pwy ydym ni' ar ddewislen gwefan y Gwasanaeth. Mae'r dudalen yn cynnwys gwybodaeth am gyflwyno safonau'r Gymraeg ynghyd â dolenni i Hysbysiad Cydymffurfio, Cynllun Gweithredu ac Adroddiad Monitro Blynyddol yr Awdurdod.

Darperir manylion i defnyddiwr y wefan yn esbonio sut i gofrestru cwyn neu ganmoliaeth ynghylch cydymffurfio â'r Safonau a rhoddir manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch ein Gwasanaeth a'r Gymraeg.

### Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru - Safonau'r Gymraeg:
http://bit.ly/safonaur-gymraeg

### Y drefn ar gyfer cwynion a chanmolaeth mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg:
http://bit.ly/cysylltu-a-ni

# Monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

Fel corff cyhoeddus mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth hunan-reoleiddio ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg. Mae hyn yn golygu monitro ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a sicrhau ein bod yn rhoi digon o gyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio gyda ni neu ddefnyddio ein gwasanaethau.

Safonau a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg i gynorthwyo â hunan-reoleiddio yw'r Safonau ar gyfer cadw cofnodion a'r Safonau atodol. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gofnodi'n gyfnodol sut yr ydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a sut rydym yn delio â'r cyhoedd. Mae cofnodi'r manylion hyn yn ein galluogi i ddangos sut rydym yn cynnal cydymffurfiaeth.

Mae monitro cydymffurfiaeth â'r safonau hefyd yn golygu cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol ar y wefan allanol erbyn y 30ain o Fedi bob blwyddyn. Mae cynnwys yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Y modd y mae'r Gwasanaeth wedi cydymffurfio â'r gwahanol ddosbarthiadau o Safonau
- Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg - Safon 147
- Nifer (a chanran os yw'n berthnasol) yr aelodau staff a fynychodd hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cwynion a gweithdrefnau disgyblu, anwytho, delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch) - Safon 148
- Nifer y swyddi newydd a gwag sy'n cael eu categoreiddio fel rhai lle mae Sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn dymunol, nid yn angenrheidiol, neu angen eu dysgu - Safon 151
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y sefydliad am bob dosbarth o Safonau - Safon 143

# Gweithredu Safonau'r Gymraeg

Cyfrifoldeb y Tîm Arwain Gweithredol a'r Penaethiaid Gwasanaethau yw cydymffurfiaeth yr Awdurdod â Safonau'r Gymraeg. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Safonau sy'n berthnasol i'w hadrannau hwy ac mae'n ofynnol iddynt gynnal adolygiad cydymffurfio unwaith y flwyddyn.

# Gwasanaethau Cyfieithu i'r Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn yn dilyn gosod hysbysiad cydymffurfio'r Awdurdod ar y 30ain o Fedi 2016, profwyd cynnydd gennym yn y galw am ein gwasanaethau cyfieithu mewnol i'r Gymraeg.  Penderfynwyd y byddai angen adnoddau ychwanegol i ddelio ag effaith y Safonau ac o ganlyniad, penodwyd Cyfieithydd Cymraeg dros dro ym mis Ionawr 2018.

Sefydlwyd y swydd hon yn barhaol wedyn ym Mawrth 2019.  Bellach, mae gan y Gwasanaeth ddau gyfieithydd parhaol, un amser llawn ac un rhan amser.  Bydd y capasiti cynyddol hwn yn arwain at ddatrysiad tymor hir mwy effeithiol o ran cyfieithu, tra bydd hefyd yn manteisio i'r eithaf ar feddalwedd cof cyfieithu'r Gwasanaeth.

# Polisïau Corfforaethol

Mae gan y Gwasanaeth nifer o bolisïau corfforaethol sydd ar gael i'r cyhoedd.  Maent oll yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth a gellir eu cyrchu drwy ddefnyddio'r ddolen isod:

http://bit.ly/polisi-corfforaethol

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i adolygu ei gynnydd yn erbyn y Safonau Llunio Polisïau wrth lunio polisïau newydd neu adolygu polisïau cyfredol.  Mae hyn yn rhoi cyfle i unigolion gyfeirio at bolisïau/gweithdrefnau yn eu hiaith ddewisol.

# Swyddi a Sgiliau Cymraeg

Mae'r Gwasanaeth yn hysbysebu swyddi gwag trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r rhain yn ymddangos ar y dudalen 'Swyddi Gwag Diweddaraf' ei wefan. Mae'r pob swydd o fewn y Gwasanaeth yn cael eu categoreiddio yn Gymraeg Hanfodol neu Gymraeg Dymunol. Ar gyfer y swyddi hynny o fewn y categori Hanfodol, asesir ymgeiswyr ar eu sgiliau Cymraegfel rhan o'r prosesau Llunio Rhester Fer a Delhol.

Mae'r tabl isod yn dangos y ffigurau ar gyfer nifer y swyddi newydd a gwag a gododd yn ystod blwyddyn ariannol 2018 – 2019 yr Awdurdod a'u categoreiddio cyfatebol fel Cymraeg Hanfodol neu Gymraeg Dymunol.

| Swyddi newydd a gwag Ebrill 2018 - Mawrth 2019 | Swyddi wedi'u categoreiddio fel Hanfodol Cymraeg | Swyddi wedi'u categoreiddio fel Dymunol Cymraeg |
|---|---|---|
| 64 | 4 | 60 |

# Darpariaeth Hyfforddiant Cymraeg

Cynigir cyrsiau Cymraeg i bob gweithiwr yn flynyddol. Yn ystod haf 2018, llwyddodd deuddeg o fyfyrwyr yn yr arholiadau Cymraeg yr oeddent wedi eu sefyll gyda Phrifysgol De Cymru. Mae staff ychwanegol wedi cofrestru ar gyrsiau Cymraeg rhan-amser eleni. Darperir y cyrsiau hyn gan Ddysgu Cymraeg Gwent, Dysgu Cymraeg Bro Morgannwg a Dysgu Cymraeg Morgannwg.

# Bod yn weithredol wrth Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant

Mae'r Gwasanaeth wedi hyrwyddo diwylliant Cymru'n fewnol gan ddefnyddio'r fewnrwyd, e-byst cyffredinol, posteri, arwyddion ac adnoddau geirfa Gymraeg.

Cynhwysodd hyn hyrwyddo dyddiadau arbennig yng nghalendr Cymru:

- Diwrnod Shwmae Shwmae – y 15fed o Hydref
- Dydd Santes Dwynwen – y 25ain o Ionawr
- Dydd Gŵyl Dewi – y 1af o Fawrth









**Gwasanaeth Tân ac Achub**
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

**CYMRAEG**

## Ein Gweledigaeth

I wneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg

**ENGLISH**

## Our Vision

To make South Wales safer by reducing risk

# Nifer o ymweliadau i dudalennau wefan Cymraeg

Mae gwefan allanol y Gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog ac mae'n rhoi'r dewis gweithredol i bob ymwelydd ei chynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg

Cofnodir perfformiad y fersiwn Gymraeg o'r safle yn ystod Ebrill 2018 – Mawrth 2019 yn y tabl isod:

| Meini Prawf | Y wefan Gymraeg | Y wefan Saesneg |
|---|---|---|
| YMWELIADAU UNIGRYW Â THUDALEN | 36,842 | 280,944 |
| GRŴP OEDRAN PENNAF | 25-34 oed | 25-34 oed |
| DEFNYDDWYR | 22,358 | 87,810 |
| AMSER A DREULIWYD AR Y WEFAN FESUL SESIWN | 1 munud 12 eiliad | 2 munud 20 eiliad |
| TUDALENNAU MWYAF POBLOGAIDD | Tudalennau Recriwtio | Tudalennau Recriwtio |

# Dadansoddiad o'r rhyngweithiadau â thudalennau cyfryngau cymdeithasol

Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i sicrhau bod ei holl ymgyrchoedd hyrwyddo a diogelwch drwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol ar gael yr un mor hawdd i siaradwyr Cymraeg ag y maent i siaradwyr Saesneg. Cyflawnwyd hyn drwy greu sianeli ar wahân ar gyfer y ddwy iaith, gyda chyfrif Trydar pwrpasol Cymraeg @TanDeCymru yn ogystal â thudalen Facebook bwrpasol Gymraeg.

Ceir isod ddata perfformiad ar gyfer pob un o'r sianelau ar gyfer Ebrill 2018 – Mawrth 2019:

## Twitter

| @TanDeCymru | |
|---|---|
| NIFER O DDILYNWYR | 112 |
| NIFER O NEGESEUON TRYDAR | 2,005 |
| NIFER O HOFFI | 220 |

@TanDeCymru **o'i gymharu â** @SWFireandRescue

| | | | |
|---|---|---|---|
| NIFER O DILYNWYR (CYMRAEG) | 112 | NIFER O DILYNWYR (SAESNEG) | 27,600 |
| NIFER O HOFFI (CYMRAEG) | 220 | NIFER O HOFFI (SAESNEG) | 19,000 |

# Facebook

| Tudlen Facebook Cymraeg | |
|---|---|
| NIFER O DDILYNWYR | 234 |
| HOFFI NEWYDD EBRILL - MEHEFIN 2018 | 137 |
| HOFFI NEWYDD GORFFENNAF - MEDI 2018 | 65 |
| HOFFI NEWYDD HYDREF - RHAGFYR 2018 | 30 |
| HOFFI NEWYDD IONAWR - MAWRTH 2019 | 7 |
| CYFANSWM HOFFI NEWYDD YN YSTOD YCYFNOD HWN | 239 |

| Tudalen Facebook Gymraeg **o'i gymharu â** tudalen Facebook Saesneg | Gymraeg | Saesneg |
|---|---|---|
| **DILYNWYR**<br>EBRILL 2018 - MAWRTH 2019 | 234 | 23,557 |
| **DILYNWYR YCHWANEGOL**<br>YN YSTOD Y 3 MIS DIWETHAF | 15 (+6%) | 1,192 (+5%) |

# Nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg

Mae gan Borth AD y Gwasanaeth y gallu i gofnodi sgiliau iaith. Gofynnir i bob gweithiwr ddyfarnu sgôr rhwng 0-5 ar gyfer lefel eu sgiliau ddarllen, siarad, deall ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg gan nodi ai Cymraeg neu Saesneg yw eu dewis iaith. Diweddarir y wybodaeth hon yn rheolaidd ac mae'n ofynnol i ddechreuwyr newydd ddarparu'r wybodaeth hon wrth iddynt ymuno â'r Gwasanaeth.

# Hyfforddiant a chyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae dau brif bwynt cyswllt ar gyfer hyfforddi staff, sef y Tîm Dysgu a Datblygu ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân a'r Ganolfan Hyfforddi a Datblygu ym Mhorth Caerdydd. Ni chynhaliwyd dim cyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn hon ac ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau amdanynt.

# Cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg

Mae'r adran Cymorth Busnes yn cofnodi'r holl gwynion a dderbynnir gan y Gwasanaeth drwy'r dudalen 'Cysylltu â Ni' a'r adran honno sy'n ymdrin â nhw i gychwyn. Yn dilyn hynny cyfeirir unrhyw gwynion at yr adran berthnasol. Ni chafodd yr Awdurdod unrhyw gwynion ynglŷn â'i gydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg.




**Gwasanaeth Tân ac Achub**
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View, Llantrisant , Rhondda Cynon Taf, CF72 8LX.
01443 2232000
YGymraeg@decymru-tan.gov.uk

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan y Cyfryngau a Chyfathrebu 2019 - 3357/WL